Os ydych eisoes wedi llenwi'r ffurflen DSA at ddibenion astudio rhan-amser, NI fydd angen i chi lenwi'r adrannau canlynol y ffurflen PTG1:

- Adran 2, cwestiynau d ac e
- Unrhyw ran o Adran 3

Os ydych yn dymuno gwneud cais am DSAs fel myfyriwr ôl-raddedig neu fyfyriwr dysgu o bell, NI ddylech lenwi'r ffurflen hon. Dylech lawrlwytho copi o ffurflen DSA1 trwy droi at [www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk) neu gysylltu â'n Swyddfa Cymorth i Gwsmeriaid ar 0845 602 8845.

## Myfyrywyr dysgu o bell rhan-amser

Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser sy'n dilyn cwrs trwy gyfrwng trefniant dysgu o bell rydych yn gymwys i gael cymorth ariannol gan y weinyddiaeth yr ydych yn byw ynddi ac nid y weinyddiaeth y byddech yn astudio ynddi. Er enghraifft, os ydych yn dilyn cwrs dysgu o bell o'ch cartref yng Nghymru ond mae'ch cwrs yn cael ei ddarparu gan brifysgol neu goleg yn yr Alban, Lloegr, neu Ogledd Iwerddon, ac os ydych yn gymwys i gael cyllid myfyrywyr, bydd Gweinidogion Cymru yn darparu eich cymorth ariannol.

Man astudio	Term 'gweinyddiaeth'
Cymru	Gweinidogion Cymru
Gogledd Iwerddon	Adran Cyflogaeth ac Addysg
Lloegr	Ysgrifennydd Gwladol dros Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau

## Adran 1 manylion personol

- a** Eich Cyfeirnod Cwsmer (a elwid gynt yn ART ID) yw'ch cyfeirnod cwsmer personol ac mae'n rhif un ar ddeg digid. Byddwch wedi cael Cyfeirnod Cwsmer os ydych wedi cael benthyciad myfyrwyr neu gyllid arall i fyfyrwyr gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) neu'ch awdurdod lleol o'r blaen. Efallai y bydd gennych un hefyd os ydych wedi darparu gwybodaeth ariannol ar gyfer cais myfyrwr arall o'r blaen. Os nad oes gennych un, neu os nad ydych yn gwybod eich Cyfeirnod Cwsmer, dylech adael y blwch yn wag.

Os ydych yn fyfyrwr sy'n dychwelyd ac os ydych wedi anfon y dystiolaeth ganlynol eisoes, nid oes angen i chi ei hanfon eto. Os nad ydych wedi anfon y dystiolaeth eisoes, anfonwch un o'r dogfennau gwreiddiol canlynol:

- t**
- pasbort;
  - tystysgrif mabwysiadu;
  - tystysgrif geni; neu
  - dystysgrif geni y DU a gyhoeddir gan Swyddfa Gonswl Brydeinig mewn gwlad dramor.

Os byddwch yn dewis anfon eich tystysgrif geni wreiddiol neu'ch tystysgrif mabwysiadu wreiddiol, rhaid anfon ffurflen Tystysgrif Geni/Mabwysiadu wedi'i llenwi gyda hon. Mae'r ffurflen yn cynnwys dau ddatganiad gwahanol.

**1** Datganiad Hunaniaeth gyda'ch llofnod.

**2** Cadarnhad Hunaniaeth wedi'i llenwi a'i llofnodi gan unigolyn uchel eu parch yn y gymuned (er enghraifft, athro, cyfreithiwr, gwas sifil neu heddwes) sydd wedi'ch adnabod ers dwy flynedd o leiaf.

Mae'r ffurflen hon ar gael trwy droi at [www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk) neu gallwch gysylltu â'n Swyddfa Cymorth i Gwsmeriaid.

### Byddwn yn dychwelyd eich dogfennau gwreiddiol atoch cyn gynted ag y bo modd.

Os ydych wedi colli eich tystysgrif geni, dylech ofyn am dystysgrif newydd gan y Swyddfa Gofrestru yn yr isranbarth lle y cofrestrwyd eich genedigaeth neu gan y canlynol yn dibynnu ar ble cawsoch eich geni:

Man Geni	Man Cyswllt
Cymru/Lloegr	Certificate Services Section, General Register Office 0845 603 7788
Gogledd Iwerddon	General Register Office 028 9025 2000
Yr Alban	General Register Office for Scotland 0131 314 4411

### Newid enw

Os yw'ch enw wedi newid o'r enw sy'n ymddangos ar eich tystysgrif geni neu basbort, dylech anfon y dystiolaeth berthnasol sy'n cadarnhau hyn, gan nodi manylion unrhyw enwau blaenorol ar ddarn o bapur ar wahân a'i gynnwys gyda'r ffurflen PTG1.

- b** Mae'r diffiniad o bartner yn dibynnu ar yr adeg pan wnaethoch chi gychwyn ar gwrs addysg uwch.

I fyfyrwyr a gychwynnodd ar gwrs addysg uwch rhwng 1 Medi 2000 - 31 Awst 2005	I fyfyrwyr a gychwynnodd ar gwrs addysg uwch ar ôl 1 Medi 2005
<ul style="list-style-type: none"> <li>• eich gŵr/gwraig;</li> <li>• eich partner sifil; neu</li> <li>• eich partner o'r rhyw arall os ydych yn 25 oed neu'n hŷn ac os ydych yn cyd-fyw fel pe baech yn briod.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• eich gŵr/gwraig;</li> <li>• eich partner sifil;</li> <li>• eich partner o'r rhyw arall os ydych yn cyd-fyw fel pe baech yn briod; neu'ch</li> <li>• partner o'r un rhyw os ydych yn byw gyda'ch partner fel pe baech mewn partneriaeth sifil.</li> </ul>

## Adran 1 manylion personol

**t** Os ydych wedi ysgaru neu wahanu, neu os ydych wedi bod mewn partneriaeth sifil sydd wedi cael ei diddymu, dylech anfon tystiolaeth, er enghraifft:

- archddyfarniad absoliwt;
- y gorchymyn diddymu;
- llythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws.

**t** Os byddwch dan 25 oed ar ddechrau eich cwrs ac os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil, dylech anfon tystiolaeth i gadarnhau fel, er enghraifft:

- tystysgrif briodas wreiddiol; neu
- ddogfennau partneriaeth sifil.

Os ydych wedi ymrwymo i bartneriaeth sifil dramor neu berthynas gyfreithiol gyfatebol gyda phartner o'r un rhyw, byddwn yn cysylltu â chi i'ch hysbysu a fydd hyn yn cael ei gydnabod at ddibenion cyllid myfyrwyr.

- c** Os byddwch yn nodi cyfeiriad gohebu, bydd yr holl ohebiaeth y byddwn yn ei hanfon, yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad hwnnw o'r dyddiad y byddwch yn symud (neu y gwnaethoch symud) yno. Gallwch ddiweddarau'ch cyfeiriad gohebu neu gyfeiriad eich cartref ar unrhyw adeg trwy gysylltu â'n Swyddfa Cymorth i Gwsmeriaid.

## Adran 2 benthyciadau neu gymorth ariannol blaenorol

- a** Nodwch unrhyw gymorth arall yr ydych yn ei gael i'ch helpu i ddilyn eich cwrs ar ddarn o bapur ar wahân. Mae enghreifftiau yn cynnwys trefniadau rhyddhau am y dydd, help gyda chostau teithio a chostau eraill sy'n ymwneud â'r cwrs, a help gyda gofal plant.
- c** Os ydych eisoes yn meddu ar radd gyntaf a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y DU, ni fyddwch yn gymwys i gael unrhyw grantiau rhan-amser. Fodd bynnag, dylech ateb 'Nac oes' i'r cwestiwn hwn os ydych
- wedi cychwyn ar gwrs yn flaenorol a oedd yn arwain at gymhwyster gradd gyntaf (e.e. BA, BSc neu BEd) ond os na wnaethoch ei gwblhau;
  - yn meddu ar gymhwyster nad yw'n gradd gyntaf (megis DCU, TGU neu Dip AU);
  - yn meddu ar radd a ddyfarnwyd y tu allan i'r DU (gan gynnwys Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel);
  - yn cwblhau'r elfen anrhydedd o'ch gradd yn yr un sefydliad ar ôl cwblhau eich gradd.
- d** Fel arfer, ni fydd modd i chi gael unrhyw grantiau nes byddwch wedi talu'ch ad-daliadau diweddaraf ar gyfer unrhyw fenthyciadau blaenorol yr ydych wedi'u cael gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Dylech ffonio'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar 0845 240 6298 i ofyn am gyngor.
- e** Fel arfer, ni fydd modd i chi gael unrhyw grantiau nes byddwch wedi llofnodi'r holl ddogfennau perthnasol. Dylech ffonio'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar 0845 026 2019 i ofyn am gyngor.

## Adran 3 manylion preswyllo

**a1** Os ydych yn ateb 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi anfon eich pasbort neu'ch tystysgrif geni fel tystiolaeth o'ch dinasyddiaeth. Os cawsoch eich geni y tu allan i'r DU ac os oes gennych dystysgrif geni Brydeinig a gyhoeddwyd gan Swyddfa Gonswl Brydeinig, dylech anfon hon yn lle'ch pasbort neu lythyr neu ddogfen arall. Os ydych wedi darparu gwybodaeth am eich pasbort neu dystysgrif geni Brydeinig fel rhan o Adran 1, nid oes rhaid anfon tystiolaeth bellach o'ch dinasyddiaeth yn y DU.

**a2** Os ydych yn ateb 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi anfon eich pasbort neu'ch cerdyn adnabod cenedlaethol fel tystiolaeth o'ch dinasyddiaeth yn yr UE.

**a3** Os ydych yn ateb 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i gadarnhau bod eich rhiant yn ddinesydd y Swistir ac mai chi yw eu plentyn trwy anfon pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol eich rhiant (os yw'r rhain yn cynnwys prawf o'u dinasyddiaeth Swistrol a'ch perthynas chi gyda nhw).

**a4** Os ydych yn ddinesydd yr AEE neu'n ddinesydd y Swistir a gyflogir yn y DU ar hyn o bryd, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth megis:

- P60; neu
- lythyr gan eich cyflogwr.

Os ydych yn ddinesydd yr AEE neu'n ddinesydd y Swistir sy'n gweithio fel person hunangyflogedig yn y DU ar hyn o bryd, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth megis:

- cyfrifon archwiliedig;
- ffurflenni treth; neu
- fanylion am eich incwm.

Os ydych yn bwriadu parhau i weithio wrth i chi astudio, bydd angen i chi ddarparu:

- llythyr gan eich cyflogwr sy'n cadarnhau hyn;
- cyfrifon archwiliedig;
- ffurflenni treth; neu
- fanylion am eich incwm os ydych yn hunangyflogedig.

Os ydych yn ddinesydd yr AEE neu'n ddinesydd y Swistir sy'n chwilio am waith yn y DU ar hyn o bryd, bydd angen i chi ddangos tystiolaeth o hyn, yn ogystal â thystiolaeth ynghylch eich sefyllfa gyflogaeth flaenorol neu'ch gwaith fel unigolyn hunangyflogedig yn y DU megis:

- P45;
- P60;
- llythyr gan eich cyflogwr;
- cyfrifon archwiliedig;
- ffurflenni treth; neu
- fanylion am eich incwm os oeddech yn hunangyflogedig.

Os ydych yn ddinesydd yr AEE neu'n ddinesydd y Swistir a fu'n gweithio yn y DU yn flaenorol, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth megis:

- P45;
- P60; neu
- lythyr gan eich cyflogwr blaenorol.

**Ym mhob achos, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'ch dinasyddiaeth yn yr AEE neu ddinasyddiaeth Swistrol megis pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol.**

Os mai'ch perthynas yw'r un sy'n gweithio yn y DU neu sy'n chwilio am waith yn y DU, bydd angen iddyn nhw ddarparu'r dystiolaeth berthnasol, yn hytrach na chi. Os mai'ch plentyn, neu'ch mab neu'ch merch-yng-nghyfraith yw'r gweithiwr, rhaid i chi fod yn ddibynnol arnynt.

**a5** Mae 'statws preswlydd sefydlog' yn golygu eich bod yn gallu byw yn y DU yn barhaol heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ynghylch hyd eich cyfnod yma.

Rydych yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Os ydych yn ddinesydd Prydeinig.
- Mae gennych hawl 'preswyllo parhaol' yn y DU.
- Os rhoddwyd 'caniatâd i aros am amser amhenodol' i chi.
- Os oes gennych hawl cartrefu yn y DU.

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch hawl preswyllo parhaol a materion eraill sy'n ymwneud â mewnfudo gan yr Asiantaeth Ffiniau'r DU yn y Swyddfa Gartref yn [www.ukba.homeoffice.gov.uk](http://www.ukba.homeoffice.gov.uk).

## Adran 3 manylion preswyllo

**a6** Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, eich gwraig, eich partner sifil, neu'ch:
- rhiant(rhieni), llys-riant; neu
- ŵr, gwraig neu bartner sifil eich rhiant neu'ch llys-riant

wedi gwneud cais llwyddiannus am statws ffoadur yn y DU dan amodau Confensiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig 1951 ac os dyfarnwyd statws ffoadur i chi (neu nhw), bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr atoch (neu nhw) a dogfen statws mewnfudo sy'n cadarnhau hyn. Dylech anfon y dogfennau hyn, nid llungopiâu ohonynt, gyda'ch ffurflen gais. Yn ogystal, dylech ddarparu tystiolaeth sy'n cadarnhau eich perthynas gyda'r unigolyn y dyfarnwyd statws ffoadur iddynt.

t

Os ydych yn hawlio cyllid myfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn ffoadur, ni fyddwch yn cael eich ystyried yn 'blentyn' oni bai eich bod dan 18 oed ar yr adeg pan wnaeth eich rhiant gyflwyno'u cais i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych yn hawlio cyllid myfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil ffoadur, rhaid eich bod yn ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil iddynt ar yr adeg y cyflwynwyd eu cais am loches.

### Dyddiad dod i ben

Os ydych chi neu'ch

- gŵr, eich gwraig, eich partner sifil; neu'ch
- rhiant(rhieni), llys-riant; neu
- ŵr, gwraig neu bartner sifil eich rhiant neu'ch llys-riant

wedi sicrhau statws ffoadur heb ddyddiad dod i ben, dylech nodi AMH (amherthnasol) yn y blwch dyddiad dod i ben.

**a7** Os ydych chi neu'ch

- gŵr, eich gwraig, eich partner sifil; neu'ch
- rhiant(rhieni), llys-riant; neu
- ŵr, gwraig neu bartner sifil eich rhiant neu'ch llys-riant

t

wedi cael dyfarniad '**caniatâd mynediad neu aros**' yn y DU o ganlyniad i gais aflwyddiannus am loches, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch (neu nhw) sy'n cadarnhau hyn. Pan fo hynny'n berthnasol, dylai'r llythyr hwn nodi pryd y bydd statws y caniatâd mynediad neu aros yn dod i ben hefyd. Dylech anfon y llythyr hwn, nid llungopi ohono, gyda'ch ffurflen gais. Yn ogystal, dylech ddarparu tystiolaeth i gadarnhau'ch perthynas gyda'r unigolyn y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt.

Os dyfarnwyd '**caniatâd i aros am amser amhenodol**' i chi (neu'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil, eich rhieni neu lys-riant), dylech nodi AMH (amherthnasol) yn y blwch dyddiad dod i ben.

Os ydych yn hawlio cyllid myfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn unigolyn y rhoddwyd 'caniatâd mynediad neu aros' iddynt, ni fyddwch yn cael eich ystyried yn 'blentyn' oni bai eich bod dan 18 oed ar yr adeg pan wnaeth eich rhiant gyflwyno'u cais i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych yn hawlio cyllid myfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun y rhoddwyd 'caniatâd mynediad neu aros' iddynt, rhaid eich bod yn ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil iddynt ar yr adeg y cyflwynwyd eu cais am loches.

**b2** Blwyddyn academaidd

Bydd y flwyddyn academaidd yn dechrau gan ddibynnu ar ddyddiad cychwyn eich cwrs a bydd

Dyddiad cychwyn y cwrs rhwng	Dyddiad cychwyn y flwyddyn academaidd
1 Awst - 31 Rhagfyr yn gynhwysol	1 Medi
1 Ionawr - 31 Mawrth yn gynhwysol	1 Ionawr
1 Ebrill - 30 Mehefin yn gynhwysol	1 Ebrill
1 Gorffennaf - 31 Gorffennaf yn gynhwysol	1 Gorffennaf

## Adran 4 am eich cwrs

- a** Dylech nodi manylion eich dewis cyntaf. Os byddwch yn derbyn lle ar gwrs gwahanol neu mewn prifysgol neu goleg gwahanol yn nes ymlaen, rhaid i chi ein hysbysu yn syth. Os na fyddwch yn gwneud hyn, bydd hyn yn oedi'ch cais.
- c** I fod yn gymwys i gael cymorth, rhaid i'ch cwrs fod yn gwrs dynodedig. Bydd eich prifysgol neu goleg yn gallu dweud wrthyhych a yw'ch cwrs yn gwrs dynodedig neu beidio.
- g** Dylech nodi'r ateb hwn mewn blynyddoedd cyfan. Dylech gyfrifo hyn trwy gymryd y byddwch yn astudio am gyfnod di-dor, hyd yn oed os oes gennych gynlluniau gwahanol. Bydd eich prifysgol neu goleg yn gallu dweud wrthyhych faint o amser, at ei gilydd, y bydd yn ei gymryd i gwblhau'ch cwrs. Ni ddylech fod yn bwriadu cymryd mwy na dwywaith yr amser i gwblhau'ch cwrs ag y byddai'n ei gymryd i chi ei gwblhau fel cwrs amser llawn. Os ydych yn astudio ar raddfa gyflymach na hyn, efallai y byddwch yn gallu cael rhagor o Grant Ffioedd Dysgu yn unol â'ch amgylchiadau ariannol. Gweler y llyfryn 'Canllaw i gymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch rhan-amser yn 2009/10' am wybodaeth ynghylch cyfraddau grantiau ffioedd sy'n berthnasol gan ddibynnu ar eich cyflymder astudio.
- i** **Ni ddylech** lenwi'r ffurflen hon os ydych yn astudio cwrs amser llawn ac yn mynychu'ch prifysgol neu goleg yn rheolaidd yn hytrach nag astudio trwy gyfrwng trefniant dysgu o bell. Dylech lenwi'r ffurflen hon os ydych yn astudio cwrs trwy gyfrwng trefniant dysgu o bell gan gynnwys cwrs amser llawn trwy gyfrwng trefniant dysgu o bell. Ni ddylech lenwi'r ffurflen hon os ydych yn astudio cwrs amser llawn trwy gyfrwng trefniant dysgu o bell oherwydd bod gennych anabledd sydd yn eich rhwystro rhag mynychu; cysylltwch â'r Swyddfa Cymorth i Gwsmeriaid ar 0845 602 8845 am gyngor. Os nad ydych yn siŵr, bydd eich prifysgol neu goleg yn dweud wrthyhych a yw'ch cwrs wedi cael ei ddynodi yn gwrs dysgu o bell neu beidio.

## Adran 5 manylion cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r myfyriwr

Cyn rhoi manylion eich banc neu gymdeithas adeiladu, sicrhewch:

- bod y cyfrif yn eich enw chi;
- bod eich cyfrif yn derbyn taliadau BACS (system glirio awtomatig y banc);
- mai cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu y DU ydyw;
- a oes angen i chi nodi rhif rhôl os yw'r cyfrif yn gyfrif cymdeithas adeiladu (holwch eich cymdeithas adeiladu os nad ydych yn siŵr am hyn)

Os ydych eisoes wedi darparu manylion cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu i ni mewn ffurflen gais arall ar gyfer 2009/10, ni fydd angen i chi eu darparu eto, oni bai eich bod yn dymuno eu newid. Sylwer, fodd bynnag, na all yr SLC gadw gwahanol setiau o fanylion cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ar eich cyfer ar gyfer gwahanol fathau o gymorth.

## Adran 6 eich prifysgol neu goleg

Bydd dwysedd astudio yn cael ei gyfrifo bob blwyddyn trwy ystyried faint o amser y bydd yn ei gymryd i chi gwblhau'ch cwrs. Felly, dylai myfyrwyr sicrhau bod eu prifysgol neu goleg yn cytuno â nhw ynghylch dwysedd eu cyfnod astudio bwriadedig.

## Adran 8 manylion ariannol

**a** Os nad ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil, ond os ydych yn byw gyda phartner, byddwn yn ystyried incwm eich partner os oes gennych bartner yn unol â'r diffiniad a nodir yn Adran 1, 1b y nodiadau hyn.

Os ydych chi neu'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu'ch partner yn cael unrhyw rai o'r budd-daliadau a restrir, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos pwy sy'n cael y budd-dal.

**Ni fydd angen i chi ddarparu unrhyw fanylion ariannol eraill.** Gallwch anfon y ddogfen wreiddiol a gawsoch gan yr asiantaeth neu'r awdurdod i'ch hysbysu am y budd-dal, neu gallwch anfon ffurflen 'Cadarnhau budd-daliadau' (CB1) gyda'ch cais.

Gallwch lawrlwytho copi o ffurflen CB1 trwy droi at [www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk) neu cysylltwch â Chanolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru gan ofyn iddynt anfon un atoch.

### b Gwybodaeth Gyffredinol

A fyddech gystal â nodi manylion yr incwm a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2009. Mae hyn yn golygu incwm o bob ffynhonnell cyn i unrhyw ostyngiadau personol, taliadau dan gyfamod neu ddi-dyniadau gael eu gwneud, ac incwm gan wlad dramor, na chaiff ei gynnwys yn nhrefniadau treth y DU.

**Nid oes** yn rhaid i chi ddatgan unrhyw incwm a gawsoch gan

- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant
- Taliadau cynhaliath (yr ydych yn eu cael neu'n eu talu)

Os yw'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil, neu'ch partner yn dymuno darparu gwybodaeth ynghylch incwm ar ffurflen ar wahân, gallant gael ffurflen trwy droi at ein gwefan sef [www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk) neu gallant gysylltu â'n Swyddfa Cymorth i Gwsmeriaid.

**b1** Mae'ch incwm gros yn golygu'ch incwm cyn didyniadau o:

- gyflogau;
- goramser;
- taliadau bonws; a/neu
- gomisiwn.

Bydd angen arnom y ffigurau hyn am flwyddyn dreth 2008-09. Fel arfer, y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 5 Ebrill 2009 fydd hon, ond fe allai fod yn wahanol os na fydd blwyddyn dreth eich cyflogwr neu'ch busnes yn gorffen ym mis Ebrill.

Yn ogystal, a fyddech gystal â chynnwys unrhyw incwm a gawsoch gan wlad dramor yn ystod blwyddyn ariannol 2008-09 megis incwm o ganlyniad i gyflogaeth mewn gwlad dramor, na chaiff ei gynnwys yn nhrefniadau treth y DU, yn ogystal ag unrhyw rai o'r budd-daliadau y gofynnwyd amdanynt.

**Ni ddylech** gynnwys unrhyw rai o'r canlynol:

- unrhyw ostyngiad personol;
- taliadau dan gyfamod; neu
- incwm di-dreth.

**t** Dylech anfon tystiolaeth o'ch enillion megis:

- Eich P60 ar gyfer 2008-09;

## Section 8 financial details

- Eich slipiau cyflog ar gyfer mis 12 neu wythnos 53 sy'n dangos 'Y cyfanswm a dalwyd hyd yn hyn' am enillion yn ystod y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2009;
- Ffurflen 'Cadarnhad Incwm' (CI2) wedi'i llenwi;
- Llythyr gan eich cyflogwr sy'n cadarnhau'ch enillion; neu
- Fanylion ysgrifenedig am yr holl fuddion ar ffurf rhoddion yr ydych yn eu cael.

Gallwch lawrlwytho copi o ffurflen CI2 trwy droi at [www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk) neu cysylltwch â'n Swyddfa Cymorth i Gwsmeriaid.

**b2** Dylech nodi'r manylion a ddangosir yn eich ffurflen hunanasesu ar gyfer eich blwyddyn fasnachu sy'n dod i ben yn ystod y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2009. Fel cadarnhad o'ch incwm hunangyflogaeth, gallwch anfon llythyr gan eich cyfrifydd.

Os na allwch nodi'r symiau, dylech roi amcangyfrif gan ysgrifennu 'A' wrth ymyl y swm ar y ffurflen.

Os ydych yn gyfarwyddwr cwmni, dylech anfon eich P60, P11D neu gadarnhad annibynnol o'ch enillion a'ch ffioedd cyfarwyddwr gan gyfrifydd siartredig neu ardystiedig neu Gyllid a Thollau EM (CATHEM).

**b6** Dylech gynnwys unrhyw incwm arall yr ydych wedi'i gael yma. Er enghraifft:

- pensiynau personol neu bensiynau'r wladwriaeth. Ar gyfer pensiynau personol, dylech anfon eich P60, neu lythyr gan eich darparwr pensiwn sy'n cadarnhau'r cyfanswm a gawsoch rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2009;
- ysgoloriaethau, ysgoloriaethau ymchwil, arddangosfeydd, bwrsariaethau, gwobrau, grantiau a lwfansau nas rhoddwyd eisoes uchod;
- taliadau eraill yr ydych yn eu cael am fynychu'ch cwrs yn ystod y flwyddyn academiaidd;
- unrhyw daliadau gan gyflogwr sy'n eich rhyddhau i astudio yn ystod y flwyddyn academiaidd. (Darllenwch y nodyn am flynyddoedd academiaidd ar dudalen 6);
- unrhyw gyflogau y byddwch yn eu cael gan eich cyflogwr wrth i chi ddilyn eich cwrs. Mae hyn yn cynnwys gwaith y byddwch yn ei gwblhau cyn i'r cwrs gychwyn, neu waith y cawsoch eich talu amdano ymlaen llaw ac y byddwch yn ei gyflawni ar ôl i'ch cwrs ddod i ben;
- lwfansau lletya neu faethu pan fo'r rhain yn daliadau rheolaidd y mae gofalyr maeth yn eu cael i dalu'r gost o gadw plentyn; or
- am fudd-daliadau mewn nwyddau, anfonwch eich P11D.

**c** Os ydych yn fyfyrwr a gychwynnodd ar gwrs addysg uwch **cyn 1 Medi 2005**, bydd angen i chi ddarparu manylion am unrhyw blant dibynnol, ond nid am blant:

- sy'n blant eich partner o'r un rhyw; neu
- sy'n blant eich partner o'r rhyw arall os ydych dan 25 oed.

Os ydych yn fyfyrwr a gychwynnodd (neu sy'n bwriadu cychwyn) ar gwrs addysg uwch **ar neu ar ôl 1 Medi 2005**, bydd angen i chi ddarparu manylion unrhyw blentyn y mae gennych gyfrifoldeb rhiant yn eu cylch, os ydynt yn blant i chi neu'n blant eich partner.

## Adran 9 Iwfans dysgu i rieni, grant oedolion dibynnol a grant gofal plant

- d** Mae lwfansau maethu neu letya yn daliadau rheolaidd y bydd gofalwyr maeth yn eu cael i dalu'r costau o gadw plentyn.
- e** Yr ymrwymadau ariannol i'w cynnwys fyddai polisiâu yswiriant megis yswiriant meddygol neu yswiriant y cartref, premiymau yswiriant bywyd, ad-daliadau morgais neu daliadau cynhaliaeth ar gyfer dibynnydd. Bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o unrhyw ymrwymadau y byddwch yn eu datgan.
- f** Os byddwch yn gwneud cais am Grant Gofal Plant neu os byddwch yn dewis cael Grant Gofal Plant yn hytrach nag elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith, anfonir ffurflen bellach atoch i'w llenwi, ynghyd â llyfryn gwybodaeth sy'n amlinellu swm y Grant Gofal Plant sydd ar gael. Gallwch gael gwybodaeth ynghylch pob agwedd ar Gredyd Treth Gwaith gan Linell Gymorth Cyllid a Thollau EM (CATHM) ar 0845 300 3900.

## Datganiadau

Os na all y myfyriwr neu'r unigolyn a enwir yn Adran 7 lofnodi'r ffurflen, am ba reswm bynnag, gall rhywun sy'n meddu ar Bŵer Atwrnai dilys ar gyfer yr unigolyn hwnnw lofnodi ar eu rhan. Rhaid anfon y llythyr Pŵer Atwrnai gyda'r cais hwn cyn y bydd llofnod gan y Pŵer Atwrnai hwnnw yn cael ei dderbyn.

### Amgylchiadau yn newid

Rhaid i chi hysbysu'r ALI o unrhyw newid i'ch amgylchiadau a allai effeithio ar eich hawl i gael cymorth ariannol.

Y newidiadau mwyaf cyffredin i amgylchiadau fyddai:

- os yw'r myfyriwr yn absennol o'r cwrs am dros 60 diwrnod oherwydd salwch;
- os yw'r myfyriwr yn absennol am unrhyw reswm arall;
- os bydd y myfyriwr yn gadael y cwrs, yn rhoi'r gorau i'r cwrs neu'n cael eu gwahardd o'r cwrs;
- os bydd yn stopio mynychu'r cwrs ac os nad yw'n bwriadu dychwelyd, neu os na chaniateir iddynt ddychwelyd am weddill y flwyddyn academaidd;
- os bydd y myfyriwr yn trosglwyddo i gwrs gwahanol yn yr un brifysgol neu goleg neu mewn prifysgol neu goleg gwahanol;
- os bydd y myfyriwr yn trosglwyddo o gwrs amser llawn i gwrs rhan-amser;
- os bydd y myfyriwr yn ailadrodd rhan o flwyddyn eu cwrs, neu flwyddyn gyfan o'u cwrs;
- os bydd dyddiad dechrau neu orffen eich cwrs yn newid;
- os bydd incwm y cartref y myfyriwr yn newid; neu
- os bydd statws priodasol y myfyriwr yn newid.

### Gwybodaeth ynghylch rhannu data at ddibenion bwrsariaethau ac ysgoloriaethau

Bydd prifysgolion a cholegau yn cynnig gwobrau ariannol megis bwrsariaethau neu ysgoloriaethau i'w myfyriwyr. Er mwyn eu helpu i weinyddu'r gwobrau hyn (h.y. er mwyn pennu cymhwysra a'r hawl i'w cael, a phan fo hynny'n berthnasol, er mwyn talu bwrsariaeth neu ysgoloriaeth – 'dibenion gweinyddu bwrsariaethau'), byddant yn gofyn i Weinidogion Cymru, yr awdurdod lleol neu'r Cwmni Benthyciadau Myfyriwyr am yr hawl i droi at wybodaeth y byddwch yn ei darparu sy'n ymwneud â'r cais hwn am gyllid myfyriwyr (yn y ffurflen hon neu yn y dyfodol).

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth berthnasol gyda nhw, oni bai eich bod yn nodi nad ydych yn dymuno i ni wneud hynny trwy dicio'r blwch yn y datganiad. Os **na fyddwch** yn rhoi eich caniatâd i ni rannu'r wybodaeth hon, efallai y bydd oedi cyn y telir unrhyw fwsariaeth neu ysgoloriaeth i'r myfyriwr y bydd ganddo/ganddi yr hawl i'w chael.

A fyddech gystal â chysylltu â'r brifysgol neu'r coleg os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch ynghylch eu bwrsariaethau a'u ysgoloriaethau.

# Deddf Diogelu Data 1998

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) yn Rheolydd Data dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth gan gynnwys pennu cymhwysra i gael cyllid myfyrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu taliadau cyllid myfyrwyr a darganfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw rai o'r dibenion hyn. Mae Gweinidogion Cymru yn Rheolydd Data ar y cyd ar gyfer eich gwybodaeth.

Efallai y byddwn yn rhoi eich gwybodaeth i sefydliadau eraill gan gynnwys yr Awdurdod Lleol (ALI), Gweinidogion Cymru, a'r brifysgol neu'r coleg at y dibenion hyn. Yn ogystal, efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch chi gan sefydliadau eraill. Os felly, bydd hyn at y dibenion a ddisgrifiwyd yn unig ac yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ei wneud.

Am fanylion pellach ynghylch y rhai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda nhw ac i ba ddiben, trowch at [www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/diogeludata](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/diogeludata).

